Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Evan James**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James**
**Ffordd y Rhondda**
**Pontypridd**
**CF37 1HF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Evan James

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Evan James |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 03 Hydref 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried themâu yr amgylchedd, gofal a datblygiad ac arwain a rheoli yn fanwl.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo, ac maent yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Maent yn gyfarwydd â threfniadau'r gwasanaeth ac yn archwilio eu hamgylchedd yn hyderus. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i'r plant ac maent yn cael llawer o gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r plant ac yn cefnogi eu hanghenion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu ac yn cynnig amgylchedd addas. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd priodol i chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio mewn modd cadarnhaol i ddatblygu'r lleoliad. Maent yn sicrhau eu bod yn delio â phryderon ac yn rhoi gwelliannau ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn gymwysedig ac yn addas i weithio gyda phlant, ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni.

## Llesiant

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus yn aml am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried ar y cyfan. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain yn fodlon ac yn symud o amgylch yr ardaloedd yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau o ran eu chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Mae'r plant yn setlo'n gyflym ar ôl cyrraedd y lleoliad, gyda rhai ohonynt yn gyffrous wrth iddynt gyrraedd. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn. Gwelsom y plant yn mynd at y staff i gael cymorth neu i ddangos balchder eu bod wedi cael sticer am ganu. Maent yn ymgyfarwyddo â'r arferion dyddiol. Er enghraifft, roedd y plant yn gwybod beth i'w wneud pan oedd hi'n amser tacluso, yn amser byrbryd ac yn amser mynd adref.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol. Gwelsom y plant yn mynd at y staff i drafod eu profiadau chwarae, rhannu stori neu ofyn am help os oedd ei angen arnynt. Mae rhai o'r plant yn cyd-dynnu ac yn dechrau meithrin cyfeillgarwch â'i gilydd. Gwelsom y plant yn chwarae gyda'i gilydd ac yn rhannu adnoddau â'i gilydd. Er enghraifft, gwelsom ddau blentyn yn mwynhau gwthio ceir i lawr y ramp ac yn rhannu'r teganau ag eraill er mwyn iddynt allu ymuno yn yr hwyl.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Gwelsom y plant yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig o amser, gan chwerthin ac ymuno â'r canu a'r gweithgareddau a gynigiwyd. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored ac yn gallu ymlacio a chael cyfnodau tawel hefyd. Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hardal chwarae dan do yn ddiogel. Maent yn crwydro'n fodlon o amgylch yr ardaloedd ac yn symud yr adnoddau'n hyderus yn unol â'u diddordebau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gychwyn eu chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau. Maent yn hapus i archwilio'r amgylchedd ac i gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau a gynigir. Er enghraifft, gwelsom un o'r plant yn defnyddio'r camera digidol i dynnu lluniau ac yn mwynhau'n fawr wrth ddangos y lluniau i'w ffrindiau. Mae llawer o'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd sy'n addas i'w hoedran ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Maent yn cael rhai cyfleoedd i feithrin eu hannibyniaeth. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r lleoliad, yn enwedig i weld eu ffrindiau.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo gweithgareddau corfforol, a diogelwch personol a llesiant. Maent yn atgoffa'r plant i gadw'n ddiogel. Er enghraifft, gwelsom un o'r plant iau yn ceisio cyrraedd adnodd ac yn dechrau dringo'r bwrdd. Atgoffodd yr aelod o'r staff y plentyn i beidio â dringo dros y bwrdd a dangosodd ffordd fwy diogel iddo gyrraedd yr adnodd. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn hyderus ynghylch eu rolau, gan gynnwys yr hyn y dylent ei wneud pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae llawer o'r staff yn dilyn arferion glanhau a hylendid priodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn dilyn yr arferion gorau o ran atal a rheoli haint. Er enghraifft, ni wnaeth y plant hŷn olchi eu dwylo cyn cael byrbryd a dim ond yr hylif diheintio dwylo a ddefnyddiodd y plant iau.

Mae'r staff yn ymatebol; maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Ar y cyfan, mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn cefnogi'r plant, os oes angen, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd.  Er enghraifft, gwelsom y staff yn gofyn a oedd plant eraill am ymuno yn eu gweithgaredd creadigol. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant. Gwelsom y staff yn ymateb yn gyson i'r plant nad ydynt yn siarad ac roeddent yn deall cryfderau ac anghenion y plant yn dda.

Mae llawer o'r staff yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn cefnogi anghenion unigol y plant ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn briodol er mwyn cynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas i'r rhan fwyaf o'r ystodau oedran y gofelir amdanynt. Mae amrywiaeth o ardaloedd ar gael i'r plant eu harchwilio yn ogystal â rhai adnoddau naturiol i'r plant eu defnyddio wrth chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth foddhaol o ddodrefn, teganau a chyfarpar o ansawdd da a'r gael i lawer o'r plant, sy'n addas i'w hoedran. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r plant hŷn yn cael yr un cyfleoedd â'r plant iau. Er enghraifft, nid oedd unrhyw deganau fel jig-sos, llyfrau, teganau na byrddau a chadeiriau a oedd yn addas i'r plant hŷn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y lleoliad dîm arwain cryf, sy'n gweithio i wella a datblygu'r lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhan fwyaf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd y datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn llawn. Er enghraifft, nid oedd yn dangos yr amseroedd agor cywir. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwasanaeth wedi darparu datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru, sy'n dangos yr amseroedd agor cywir.  Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad amrywiaeth o bolisïau addas sy'n benodol i'r lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod y staff yn dilyn eu polisïau'n llawn. Er enghraifft, ar ddiwedd y sesiwn, nid oedd y staff bob amser yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r oedolyn a oedd yn eu casglu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn rhoi gwybod i AGC am y rhan fwyaf o ddigwyddiadau o bwys. Fodd bynnag, nid oedd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r staff nac wedi cwblhau hysbysiadau o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau hysbysiad ar-lein i ddangos newidiadau i'r staff.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad brosesau da ar gyfer delio ag unrhyw bryderon. Maent yn gweithio'n gadarn i gasglu gwybodaeth a gwerthuso eu gweithdrefnau a'u systemau. Maent yn rhoi gwelliannau ar waith mewn modd amserol ac yn gweithio gydag asiantaethau allanol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad broses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant ac maent yn sicrhau eu bod yn cynnal gwiriadau addasrwydd staff. Mae ganddynt systemau boddhaol ar waith i ddiweddaru gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer yr unigolyn cyfrifol na'r person â chyfrifoldeb. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi dechrau'r broses o gael tystysgrif newydd gan y DBS. Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol ac yn annog y staff i ymgymryd â hyfforddiant. Er enghraifft, mae'r staff wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant, gan gynnwys datblygu cyfleoedd chwarae yn awyr agored a chynllunio yn y fan a'r lle. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarnu yn rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn gweithio yn y lleoliad, bod yr arweinwyr yn eu cefnogi'n dda, a'u bod yn gallu siarad â nhw am unrhyw beth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff y staff eu dyrannu'n dda er mwyn bodloni'r cymarebau staffio a diwallu anghenion y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn ddigonol. Ar y cyfan, maent yn rhoi gwybodaeth i rieni.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Sicrhau bod y staff yn dilyn canllawiau arfer gorau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Haint.

A2 – Datblygu adnoddau a chyfarpar sy'n addas i'r plant hŷn.

A3 – Sicrhau bod y staff yn dilyn polisïau'r lleoliad yn llawn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am newid i'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Rhaid i'r darparwr sicrhau y rhoddir gwybod i AGC am unrhyw ddigwyddiadau o bwys o fewn yr amserlenni gofynnol. | Newydd |
| 20 | Nid oedd gan yr unigolyn cyfrifol na'r person â chyfrifoldeb dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ddilys. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod ganddo ef a'r person â chyfrifoldeb dystysgrif DBS ddilys. | Newydd |
| 15 (1) (a) | Mae angen diweddaru'r datganiad o ddiben, gan fod yr oriau gweithredu a'r staff yn anghywir. | Cyflawnwyd |
| 38 (1) (e) | Ni chynhaliwyd unrhyw ymarferion tân ers i'r gwasanaeth agor 12 mis yn ôl. | Cyflawnwyd |
| 28 (2) (b) [ii] Atodlen 2.34(g) | Nid oedd tair o'r ffeiliau staff yn cynnwys dau eirda. Nid oedd yr un o'r ffeiliau'n cynnwys datganiad meddygol o iechyd. | Cyflawnwyd |
| 29 (3) (a) | Nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarnu. | Cyflawnwyd |
| 16 (2) (a) | Ni chynhaliwyd adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y flwyddyn gyntaf o wasanaeth. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/02/2023